**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

**COMMUNITIES SCRUTINY COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.15AM, DYDD MAWRTH, 26 MAWRTH, 2013**

**10.15AM, TUESDAY, 26 MARCH, 2013**

**(Cynhelir cyfarfod rhagarweiniol i'r aelodau am 9.45am/ A pre-meeting will be held for members at 9.45am**

***Nodwch amser cychwyn y cyfarfod/Please note meeting start time***

Lleoliad / Location

**Y GANOLFAN, PORTHMADOG**

**(Ger yr harbwr/Near the harbour)**

****Noder y man cyfarfod ogydd/Please note the venue****

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Ioan Hughes (01286 679780)**

IoanHughes@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd 19.03.2013

**Aelodaeth/Membership (18)**

**<u>Plaid Cymru (9)</u>**
Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Craig ap Iago | Annwen Hughes | Gethin Glyn Williams |
| Dilwyn Morgan | Linda Morgan | Tudor Owen |
| Caerwyn Roberts | Mandy Williams-Davies | Eurig Wyn |

**<u>Annibynnol/Independent (4)</u>**
Y Cynghorwyr / Councillors

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eric M. Jones | Nigel Pickavance | Angela Russell | Mike Stevens |

**<u>Llais Gwynedd (3)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Louise Hughes | Gruffydd Williams | Robert J. Wright |

**<u>Llafur/Labour (1)</u>**

Y Cynghorydd/Councillor

Gwynfor Edwards

**<u>Democratiaid Rhyddfrydol / Liberal Democrats (1)</u>**

Y Cynghorydd/Councillor

Stephen Churchman

**Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members**
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Selwyn Griffiths a / and Huw Edwards

**<u>Noder bod y cyfarfod rhagarweiniol yn cychwyn am 9.45am</u>**

**RHAGLEN**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 5 Chwefror, 2013, fel rhai cywir, (copi yma – papur **melyn**)

<u>Noder – amcan yn unig yw'r amseroedd a nodir isod</u>

**5. DATBLYGIAD GWASANAETHAU CLUDIANT YNG NGWYNEDD**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Gareth Roberts**

Derbyn sylwadau a thystiolaeth gan:

5a) Bethan Russell Williams , Prif Swyddog Mantell Gwynedd,

<u>10.25am – 11.00am</u>

5b) Barbara Snowball, Defnyddwyr Bysiau Mawddach, (Papur cefndir ynghlwm – papur **hufen**)

<u>11.00am 11.30am</u>

5c) Rona Lewis, Cyfarwyddwr Safle Dolgellau, Coleg Meirion Dwyfor a Linda Wyn, Uwch Gyfarwyddwr Gwasanaethau Academic Coleg Meirion Dwyfor.

11.30 – 12.00pm

**6. BALCHDER BANGOR**
**Aelod Cabinet: y Cynghorydd Gareth Roberts**

Ystyried adroddiad Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu, (copi yma – papur **lelog**)

<u>12.00pm – 12.10pm</u>

**7. RHAGLEN WAITH FLYNYDDOL**

Cyflwyno'r fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith, (copi yma – papur **pinc**)

<u>12.10pm</u>

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 05-02-13**

**YN BRESENNOL (aelodau'r Pwyllgor)** - Y Cynghorydd Eric M. Jones, (Cadeirydd
Y Cynghorydd Angela Russell,(Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Stephen Churchman, Gwynfor Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Caerwyn Roberts, Mike Stevens, Mandy Williams-Davies, Gruffydd Williams a Gethin Glyn Williams,

**HEFYD YN BRESENNOL:**

**SWYDDOGION:** Arwel Ellis Jones, (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol, ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen – Adroddiad Ymchwil Craffu Ar Ddarparu Tai i Bobl Leol), Elliw Llyr, (Rheolwr Polisi Strategol – Tai), Gareth James, (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu) ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**ERAILL A WAHODDWYD I'R CYFARFOD:** Y Cynghorwyr John Wyn Williams, (Aelod Cabinet – Cynllunio) a John Wynn Jones, (Aelod Cabinet – Economi).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Nigel Pickavance, Robert J. Wright a Selwyn Griffiths.

**CROESO**

Estynnwyd croeso i gynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru a Thîm Cymheiriaid o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a oedd yn bresennol i arsylwi gwaith y Pwyllgor Craffu.

**CYFARFODYDD**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfodydd a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer cadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau craffu. Mynychwyd y rhain gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn a chadarnhawyd y byddai adroddiadau pellach, ar y wybodaeth a dderbyniwyd yno yn cael ei gyflwyno i'r aelodau maes o law.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr, 2012, fel rhai cywir.

**3. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU AR DDARPARU TAI I BOBL LEOL**

a) Cyflwynwyd adroddiad yr Ymchwiliad Craffu ar Ddarparu Tai Fforddiadwy i Bobl Leol gan Gadeirydd Grŵp yr Ymchwiliad, y Cynghorydd Stephen Churchman a diolchodd i'w gyd-aelodau a'r swyddogion fu'n gysylltiedig â'r ymchwiliad am eu cydweithrediad. Yn ogystal, nododd ei werthfawrogiad am gyfraniad y rhai a gyfrannodd dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad.

b) Esboniwyd bod yr ymchwiliad yn ymdrin yn benodol â 'Chynllun Sector' ac ymhelaethwyd ar brif nodweddion y Cynllun.

c) Adroddwyd ar brif weithgaredd yr ymchwiliad a'r canfyddiadau wrth gasglu gwybodaeth oddi wrth arbenigwyr mewn amrywiol feysydd, Cynghorau Powys a Cheredigion, lle mae'r Cynllun eisoes yn weithredol, Grŵp Ffocws o'r Panel Trigolion a chynrychiolwyr Cwmni Sector.

ch) Nodwyd bod ystyriaeth lawn wedi ei roi i risgiau posib a bod y Grŵp bellach yn fodlon nad oedd y rhan helaethaf o'r rhain yn achos pryder.

d) Ychwanegwyd bod y Grŵp Ymchwil yn gobeithio y byddai'r Cynllun o gymorth i rai gymryd y cam cyntaf ar y farchnad dai yn ogystal â chreu symudedd cyffredinol o fewn y farchnad. Nodwyd bod y Grŵp o'r farn y dylai fod yn weithredol drwy'r Sir.

dd) Ymatebodd Cadeirydd yr Ymchwiliad ac Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol, a oedd yn arwain yr ymchwiliad, yn briodol i sylwadau a wnaed gan yr aelodau a thynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- bod y Cynllun yn benodol ar gyfer prynwyr tro cyntaf, ond mai'r gobaith yw y byddai'n creu symudedd o fewn y farchnad dai;
- dylai'r Cynllun fod yn weithredol ar draws Gwynedd, ac eithrio unrhyw eiddo gyda chôd post yn ymestyn tu hwnt i ffiniau'r Sir;
- byddai angen rhoi ystyriaeth fanwl i'r uchafswm mwyaf effeithiol ar gyfer y benthyciad er mwyn ei gael mor eang â phosib ar draws y Sir;
- bod Powys a Cheredigion wedi gosod uchafsymiau o £175,000 a £152,000 ar gyfer y benthyciad ond bod cyfartaledd y benthyciad oddeutu £108,000 - £112,000. 'Roedd hyn yn rhoi peth hyblygrwydd i helpu mewn ardaloedd lle 'roedd prisiau tai a'r blaendal yn uwch;
- bod ymholiadau wedi eu gwneud ynglŷn â'r risg ariannol i'r Cyngor, a chyda 1,200 bellach yn rhan o'r Cynllun, na fu'r un methdaliad, (default) hyd yma;
- bod y Cynllun wedi ei dargedu'n bennaf at rai fyddai'n gallu fforddio taliadau misol ond sy'n methu cael y blaendal;
- bod rhai o Grŵp Ffocws y Panel Trigolion wedi datgan bod yr hyn maent yn ei dalu mewn rhent ar hyn o bryd yn fwy na be fyddai taliadau morgais;
- mai buddsoddi £1miliwn fyddai'r Cyngor yn hytrach na gwario'r arian. Byddai felly'n cael ei ddychwelyd, oni bai am unrhyw swm fyddai'n cael ei golli yn sgil 'default'
- nad oedd datblygiadau 'self build' o fewn Cynllun Sector ar hyn o bryd ond bod argymhellion y Grŵp Ymchwil yn cyfeirio ato fel mater y dylai'r Aelod Cabinet ei ystyried;
- byddai'r cynllun yn ei gwneud yn bosib i oddeutu 40 o brynwyr ac y gallai hyn olygu 40 o deuluoedd;
- bod ymateb ac adborth cadarnhaol iawn wedi bod i weithgareddau a drefnwyd er mwyn casglu barn y cyhoedd;
- bod tystiolaeth gan arwerthwr tai wedi amlygu bod rhai tai is eu pris, ee tai teras, yn cael eu prynu gan landlordiaid i'w rhentu allan, yn hytrach na chan brynwyr tro cyntaf;
- nad oedd penderfyniad wedi ei gymryd ynglŷn â pha fanc neu gymdeithas adeiladu fyddai'n rhan o'r Cynllun yng Ngwynedd, ond mai'r bwriad oedd cael un fyddai'n cynnig presenoldeb lleol;
- bod bwriad i hysbysebu'r Cynllun yn effeithiol ac yn lleol;
- bod posib ail-fuddsoddi £1m ymhen 5mlynedd ond nad oedd hyn yn orfodol;

e) Yn datgan eu cefnogaeth i'r cynllun, nododd rhai a fu'n rhan o'r ymchwiliad:

i) bod angen cefnogi cynllun allai fod o fudd i'r ieuenctid lleol;

ii) bod cyflogau'n isel yng Ngwynedd a bod angen ystyried gwerth y cynllun i gymunedau lleol ac i'r iaith Gymraeg;
iii) bod y cynllun yn cynnig cyfle i gynorthwyo 40 o deuluoedd a byddai hynny o bosib, yn rhyddhau tai i'w rhentu a chreu symudedd cyffredinol o fewn y farchnad dai.

Fodd bynnag, mynegwyd pryder gan rhai aelodau o'r Pwyllgor a awgrymodd y gellid gwneud gwell defnydd o'r arian, er enghraifft trwy brynu tir ar gyfer datblygiadau 'self build' neu brynu tai i'w rhentu am bris rhesymol gan greu cyfle i'r darpar brynwyr i arbed arian er mwyn casglu blaendal ar gyfer morgeisi.

Mynegwyd pryder y gallasai symudedd yn y farchnad dai arwain at gynnydd ym mhrisiau tai gan greu ychwaneg o drafferthion i brynwyr tro cyntaf.

l) Mewn ymateb i ymholiadau pellach nododd yr Aelod Cabinet – Cynllunio bod sawl mater parthed tai fforddiadwy sy'n cael ystyriaeth a bod rhaid blaenoriaethu er mwyn gallu cynnig cymorth yn y mannau priodol.

Cadarnhaodd bod Cytundebau 106, oedd yn pryderu'r aelodau, yn un o'r materion sydd dan ystyriaeth

m) O safbwynt yr ymchwiliad yn gyffredinol, nodwyd mai hwn oedd ymchwiliad craffu cyntaf y Pwyllgor a'i bod wedi amlygu'r gwerth o wneud ymholiadau tu hwnt i ffiniau'r Cyngor. Gwelwyd bod hyn wedi tanlinellu bod ymchwiliad craffu yn creu cyfle i gasglu gwybodaeth gan grwpiau, cymdeithasau, busnesau ac unigolion.

**PENDERFYNWYD:**
**1. Argymell i'r Aelod Cabinet, gyda chyfrifoldeb ym maes Tai :**

**a) y dylid cyflwyno'r Cynllun Sector gyda'r ymrwymiad y byddai'r Cyngor yn ystyried buddsoddi £1miliwn yn y Cynllun gan:**

- **bennu'r uchafswm ariannol ar gyfer gwerth y tŷ a'r benthyciad trwy edrych ar yr amrywiaeth prisiau ar draws y Sir fel bod modd ei weithredu ar draws y Sir;**
- **ddewis banc/cymdeithas adeiladu i fod yn bartner all gynnig presenoldeb lleol er sicrhau bod pobl leol yn medru cael mynediad hwylus at y Cynllun;**
- **wneud pob ymdrech, o fewn y rheolau, i sicrhau sylw i'r cynllun o fewn y Sir i godi ymwybyddiaeth trigolion lleol amdano.**

**b) Gan fod Cynllun Sector yn cyfarch anghenion rhai o fewn un garfan, y dylid edrych hefyd am gynlluniau all gyfarch anghenion carfannau eraill sy'n wynebu anawsterau gwahanol fel:**

- **Rhai sy'n dymuno adeiladu eu hunain;**
- **Rhai sydd â diddordeb mewn cynlluniau rhanberchenogaeth;**
- **Rhai sydd am adeiladu o'r newydd sy'n wynebu anawsterau cael morgais yn sgil gofynion Cytundeb 106.**
- **Rhai sy'n methu cael yr hawl cynllunio i addasu adeiladau allanol yn gartrefi parhaol.**

## 4. CRAFFU TAI CYMDEITHASOL

a) Cyflwynwyd adroddiad a ddarparwyd gan yr Aelodau Cabinet, John Wyn Williams, (Cynllunio) a John Wynn Jones, (Economi), mewn ymateb i gwestiynau a gyflwynwyd gan aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn.

b) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol ganddynt:

- bod gwerth neilltuol yng nghynllun y Cyngor i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd;
- byddai gwneud mwy o ddefnydd o'r Cynllun uchod yn golygu buddsoddiad o safbwynt grantiau yn ogystal â chael ychwaneg o swyddogion i fod yn rhan ohono;
- bod angen cydweithio ymysg adrannau'r Cyngor a phartneriaid mewn perthynas â datblygu canol trefi;
- bod canoli yn fater i'w ystyried mewn perthynas ag adfywio canol trefi;
- bod angen ystyried materion sy'n gysylltiedig â phobl yn byw uwchben siopau;
- bod cefnogaeth, megis grantiau o 50% i wella delwedd siop, ar gael ond bod nifer y rhai sy'n manteisio ar y cynlluniau'n siomedig;
- bod gwerth buddsoddiad Ewrop i'w weld yn amlwg yn ardal Blaenau Ffestiniog ac mai ychydig iawn o siopau gwag sydd yno bellach;
- bod eiddo wrth ben siop yn cael eu gadael yn wag yn aml gan nad oes modd cael mynediad iddynt heb fynd drwy'r siop;
- bod cydweithio agos rhwng yr Adran Economi a'r Adran Dai.

c) Mewn ymateb i ymholiadau pellach, nodwyd mai'r diffiniad cenedlaethol o 'dŷ gwag' yw 'tŷ sydd wedi bod yn wag am fwy na chwe mis.' Ychwanegwyd bod yna sawl eiddo sy'n wag yn barhaol a bod y Cyngor wedi ymyrryd yn y gorffennol pan mae cyflwr eiddo'n dirywio'n eithafol.

Nodwyd bod eiddo gwag uwchben siopau yn fater o bwys yn lleol a chenedlaethol a bod y Cyngor yn eu hystyried fel 'tai gwag'. Fodd bynnag, ychwanegwyd bod rhaid gweithio o fewn yr adnoddau sydd ar gael wrth geisio ymdrin â'r broblem.

Nodwyd bod gwybodaeth yn cael ei dderbyn ynglŷn â lle mae yna eiddo gwag, ac yn sgil hyn bod rhaid ystyried a oes angen lleol i gyfiawnhau dod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd. Ychwanegwyd bod angen cael gwybodaeth lawn ynglŷn ag eiddo uwchben siop oherwydd bod llawer ohonynt yn cael eu defnyddio fel storfa.

Yn sgil hyn, pwysleisiodd aelod y byddai'n fanteisiol cael cynllun manwl ynglŷn ag eiddo gwag fyddai'n cynnwys lleoliad a chyflwr yr eiddo ac os oes unrhyw fath o ddefnydd yn cael ei wneud ohono ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd yr aelod lleol at y sefyllfa yn ardal Blaenau Ffestiniog lle mae rhai perchnogion siopau yn ymddeol a byw uwchben y siop sy'n cael ei gadael yn wag.

Awgrymwyd nad oedd y targed o gael 90 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn ystod y cyfnod 2013-2018 yn ddigon uchelgeisiol. Mewn ymateb dywedodd yr Aelod Cabinet – Cynllunio bod rhaid ystyried yr adnoddau sydd ar gael a byddai cyfle i ystyried y sefyllfa fel rhan o'r Cynllun Pedair Blynedd Newydd.

Nododd aelod bod llawer o'r rhai sy'n methu cael tai cymdeithasol neu'n methu cael blaendal morgeisi yn bobl gydag amrywiol sgiliau arbennig. Credai felly bod angen gweithio mewn partneriaeth fel y gellir cyplysu swyddi'r ymgeiswyr hefo'r tai sydd angen eu hadnewyddu.
Cytunwyd bod hwn yn faes pellach i'w ystyried.

ch) Mynegwyd barn bellach gan aelodau parthed amrywiol feysydd ac mewn ymateb nodwyd y prif bwyntiau canlynol gan yr Aelodau Cabinet:

- na fyddai'n bosib gosod y gallu i siarad Cymraeg fel mater i ennill pwyntiau ychwanegol ar y rhestr aros;
- bod ffioedd parcio yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymdrechion i hyrwyddo busnesau yn y dref;

- bod angen cynorthwyo mewn ffordd i rwystro rhai rhag bod yn ddigartref yn hytrach nag ymateb i sefyllfaoedd rhai sydd eisoes yn ddigartref;
- bod trafodaethau ar gyfer Cynllun Strategol newydd yn creu cyfle i gynnig syniadau newydd a bod denu Cynghorau Cymuned i weithgareddau yn un o'r materion a ellid ei ystyried;
- bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i bosibiliadau ym maes adeiladu tai;
- bod tiroedd a oedd ar gael wedi eu trosglwyddo fel rhan o gytundeb Cartrefi Cymunedol Gwynedd a bod lleiniau adeiladu felly yn brin;
- nad oes cynllun gan y Cyngor ar gyfer ymdrin yn benodol â rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog allai fod yn ddigartref, ond bod posib rhoi sylw i'r mater;
- bod angen ymchwilio i'r drefn o ymdrin â digartrefedd er sicrhau nad oes unrhyw un yn gwyro oddi wrth y rheolau;
- mai'r bobl gydag angen gaiff fwyaf o bwyntiau mewn perthynas â'r rhestr aros ac mai dyletswydd y Cyngor yw ceisio cael cymaint â phosib o bwyntiau i bobl leol;
- nad yw'r Cyngor yn gysylltiedig ag unrhyw amodau sydd ynghlwm i Gynllun Troi Tai'n Gartrefi Llywodraeth Cymru. Gyda'r Cynllun gall perchnogion tai sydd wedi bod yn wag ers dros chwe mis wneud cais am fenthyciad di-log o hyd at £25,000 i'w wario ar adnewyddu'r tai fel y gall pobl fyw ynddyn nhw.

d) Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau Aelod Cabinet am fynychu'r cyfarfod ac am eu sylwadau.

**5. ADBORTH Y RHAI OEDD YN ARSYLWI**

a) Wedi iddynt arsylwi gwaith y Pwyllgor Craffu, croniclwyd barn cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cymheiriaid o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel a ganlyn:-

1. 'Roedd y rhaglen yn gytbwys a'r adroddiadau'n hawdd i'w deall;
2. Nid oedd y trafodaethau wedi cyd-fynd gyda'r amseroedd oedd wedi eu nodi ar eu cyfer ar y rhaglen;
3. 'Roedd gan y Cynghorydd a oedd wedi cadeirio'r Ymchwiliad Craffu wybodaeth lawn o'r pwnc a llwyddodd i gyflwyno llawer o wybodaeth yn glir;
4. 'Roedd y gefnogaeth a gafwyd gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol yn dangos bod cydweithio wedi digwydd yn ystod yr Ymchwiliad Craffu;
5. 'Roedd y trafod a'r cwestiynu yn effeithiol;
6. Dylid bod wedi ystyried cael swyddogion Cyllid a Thai yn bresennol ar gyfer mynd i fwy o fanylder pe byddai angen;
7. 'Roedd arweiniad wedi ei roi gan Gadeirydd y Pwyllgor mewn perthynas â'r cwestiynu a'r trafod a llwyddodd i dynnu pethau at ei gilydd pan oedd y drafodaeth yn tueddu i fod yn frysiog,
8. Gallai'r ffaith mai'r Aelodau Cabinet oedd yn cymryd y brif rôl wrth gyflwyno adroddiad gael effaith ar y drafodaeth a'r penderfyniad ac y gellid ystyried mai hwy sy'n atebol i'r Pwyllgor;
9. Dylid meddwl am gael mwy o gefndir i'r argymhellion ac efallai eu gosod yn gynharach yn yr adroddiad;
10. 'Roedd y modd y casglwyd gwybodaeth tu allan i'r Cyngor ar gyfer yr Ymchwiliad Craffu i'w ganmol;
11. Dylid cael Rhaglen Waith yn rhan o raglen y Pwyllgor;
12. 'Roedd y gwaith craffu yn gyffredinol i'w weld yn effeithiol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.35pm

# CLUDIANT CYHOEDDUS LLEOL

## Bws rhif 28 (*Lloyds Coaches*) o Ddolgellau i Dywyn, sydd yn mynd drwy Fairbourne, Llwyngwril, Rhoslefain, Llanegryn, Bryncrug.

Ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd Llywodraeth Cymru yn rhagweithiol iawn yn hyrwyddo system cludiant cyhoeddus dda ac roeddent yn annog pobl i ddefnyddio bysiau yn lle eu ceir. Roedd y gwasanaeth bws yn rhagorol ond, oherwydd yr hinsawdd economaidd yn bennaf, cafodd ei dorri'n sylweddol. Mae hyn wedi bod yn golledus iawn i fywydau pobl sy'n byw yng nghefn gwlad Meirionnydd. Mae'r system cludiant cyhoeddus yn hanfodol i'r gymdeithas. Mae **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru** yn graddio'r **mynediad at wasanaethau** yn ein hardal dan sylw (Ward Llangelynnin) fel **"gwael"**.

**Dolgellau i Dywyn**

Cafodd yr amseroedd rhedeg eu haneru, a chanslwyd dwy o'r teithiau hwyrach, 5.40pm a 7.45pm. Mae mynd i'r ysbytai, i siopa neu ymweld â ffrindiau a theulu yn Wrecsam, Bangor neu Aberystwyth yn creu problem. Mae'r lleoliadau hyn i gyd oddeutu 60 milltir i ffwrdd a dim ond gyda'r gwasanaeth bws y gall llawer ohonom gael mynediad i'n gwasanaethau iechyd. Mae rhywun yn cyrraedd pen y daith oddeutu 11.15am ac mae'n **RHAID** ymadael am 1.15pm er mwyn dal y bws cysylltiol olaf, sef Rhif 28 o Ddolgellau am 4.20pm. Nid yw dwy awr yn amser digonol, yn enwedig os ydych yn mynd i'r ysbyty.

Yn ogystal, ni all pobl gael mynediad i leoliadau hamdden a theatr gyda'r nos ac nid yw myfyrwyr Coleg Meirion-Dwyfor yn gallu aros yn hwyrach na 4.00pm i ddatblygu eu sgiliau ymhellach/gymryd rhan mewn chwaraeon ac ati.

**Tywyn i Ddolgellau**

Cafodd dwy daith olaf Rhif 28 eu canslo ac mae'r bws olaf nawr am 2.10pm.
Mae'r cysylltiadau bws yn Nhywyn yn wael iawn. Er enghraifft – gadael Machynlleth ar yr X29 (*Lloyds Coaches*) am 12.15, cyrraedd Tywyn am 12.47, gadael Tywyn ar fws Rhif 28 i Ddolgellau am 2.10pm, sy'n golygu gorfod aros am 1 awr 27 munud.

Mae llawer o bobl, yn enwedig yr henoed, yn dod yn fwy a mwy ynysig gan nad ydynt yn gallu teithio ar gludiant cyhoeddus oherwydd y cysylltiadau gwael. Golyga hyn y byddant yn cael eu gorfodi i archebu lle mewn car ambiwlans os nad oes ganddynt gar neu neb i fynd â nhw i'r ysbyty. Bydd hyn yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles ac yn straen a chost ychwanegol ar system y GIG. Gallwn gyfeirio at un enghraifft (mae llawer mwy ohonynt) o ddynes 80 mlwydd oed sydd yn byw ger Fairbourne, yr arferai ymweld â'i chwaer yn Wrecsam bob wythnos. Nid yw'n gallu gwneud hynny mwyach oherwydd y diffyg mewn cludiant cyhoeddus cysylltiol ar hyn o bryd.

Nid yw Rhoslefain, Llanegryn, Bryncrug a'r ardaloedd cyfagos yn cael eu gwasanaethau gan Reilffordd y Cambrian, felly nid oes unrhyw opsiwn o gwbl ar gyfer y bobl sydd yn byw yno. Ni allwch ddefnyddio'r rheilffordd i fynd adref o Ddolgellau beth bynnag. Mae pobl yn hynod ddigalon gyda'r sefyllfa.

**Dymunwn wneud cais i weld bysiau hwyrach o Ddolgellau i Dywyn, ac o Dywyn i Ddolgellau, yn cael eu hadfer.**

Mae *Express Motors* wedi ymestyn y gwasanaeth o Landudno i Flaenau Ffestiniog drwy Ddolgellau (X1). Ni fydd pobl sydd yn byw ar lwybr bws Rhif 28 yn gallu defnyddio'r gwasanaeth X1, oherwydd

dim ond amser byr iawn fyddai ganddynt yn Llandudno. Mae hwn yn gyfle gwych ond yn wastraff cyfle hefyd os nad ydynt yn gallu teithio oherwydd diffyg cyswllt i fynd adref.

Dywed y gweithredwyr bysiau bod niferoedd y teithwyr wedi gostwng, ac nad ydynt yn hyfyw yn ariannol o ganlyniad. Byddai gwella cysylltiadau bws yn arwain at fwy o ddefnydd o'r bysiau pellter hwy.

**Safbwynt busnes:-**

**Tymor byr** **Efallai y bydd cysylltiadau gwell yn 'nwydd ar golled'.**

**Tymor hir** **Dylai cysylltiadau gwell arwain at fwy o deithwyr yn defnyddio'r llwybrau pellter hwy, gan gynyddu'r elw cyffredinol i weithredwyr bysiau.**

**Mwy o fysiau ar y ffordd = mwy o gyflogaeth = mwy o dreth i'r Trysorlys = mwy o arian yn mynd i Gyngor Gwynedd + gwariant arall + lleihau allyriadau car a defnydd o danwydd.**

**Llai o fysiau = taliadau diweithdra i yrwyr = llai o dreth i'r Trysorlys, + llai o arian i'w wario ar yr economi lleol + straen ar y GIG oherwydd iechyd gwael ac iselder a achosir oherwydd effaith ganlyniadol arwahanrwydd ac ati.**

**Rhaid gwario arian er mwyn cynhyrchu mwy o arian.**

Mae angen annog y diwydiant twristiaeth a bydd rhai ardaloedd yn marw os byddant yn anghyraeddadwy oherwydd diffyg cludiant cyhoeddus. Ceir llawer mwy o grwpiau cerdded erbyn hyn, ac maent yn defnyddio'r bysiau gymaint ag y bo modd. Mae Clwb yr Henoed yn Fairborne yn mynd ar deithiau rheolaidd er mwyn cynorthwyo pobl i fynd allan a chyfarfod eraill. Mae'n hynod bwysig eu helpu i allu gwneud hyn.

**Os gellir adolygu'r sefyllfa hon a'i datrys yn ffafriol drwy adfer bysiau hwyrach, byddai o fudd mawr i'r holl gymuned leol ac yn cynorthwyo i roi hwb angenrheidiol i dwristiaeth.**

Os na allwch gytuno i ymrwymiad hir dymor, a fyddai'n ddealladwy yn yr hinsawdd ohoni, yna a ellir gweithredu cyfnod prawf am flwyddyn? Gallwn ninnau wneud ein rhan drwy wneud yn siŵr bod pobl leol yn ymwybodol o'r opsiynau teithio ac yn cael eu hannog i ddefnyddio'r gwasanaethau bws.

**Mae'r Ddeiseb wedi cael ei llofnodi gan dros 300 o drigolion lleol**

Dwyseir yr angen hwn fwyfwy yn sgil datblygiadau pellach, sef y gostyngiad trychinebus sydd ar y gweill mewn oriau gweithio yn uned mân anafiadau Ysbyty Tywyn, ynghyd â'r cyfleusterau pelydr-X fydd yn cael eu gwaredu. Rhaid i bobl deithio i ysbyty Dolgellau a'r bws Rhif 28 hwyraf yw 2.10pm o Dywyn, sydd yn cyrraedd am 3.05pm. Mae'r daith gerdded i fyny i'r ysbyty o Sgwâr Eldon (i berson heini) yn 15 munud da bob ffordd, sydd yn gadael uchafswm o 40 munud i rywun gael pelydr-X a gweld gweithiwr iechyd proffesiynol.

**Fersiwn 2.00 o'r Sgôp 26 Mawrth 2013**

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **26 Mawrth 2013** |
| **TEITL** | **BALCHDER BANGOR** |
| **AWDUR** | **Gareth James**<br>**Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng Gareth Roberts** |
| | |
| **PWRPAS** | • **Gwneud sylwadau a chwestiynu'r Awdur ar y Brîff diwygiedig**<br><br>• **Cadarnhau aelodaeth yr Ymchwiliad** |

| | |
|---|---|
| CYFEIRNOD | YMCH 4 |
| Grŵp AELODAU ARWEINIOL<br>o'r Pwyllgor Craffu | Cynghorwyr<br><br>1 Eric M Jones<br>2 Mabdy Williams-Davies<br>3 Gwynfor Edwards<br>4 Nigel Pickavance<br>5 Dilwyn Morgan<br>6 Gruffydd Williams |
| SWYDDOG ARWEINIOL | Gareth James |
| CEFNOGAETH<br>Swyddogion annibynnol a fydd yn cefnogi ac yn gweinyddu'r Ymchwiliad. | Ann Roberts<br><br>Hughes Ioan |

Draft

1 <u>Cefndir</u>

Daeth Adroddiad MORI (yn dilyn arolwg o drigolion Gwynedd yn 2009) i’r casgliad mai’r tri pheth a oedd yn achosi’r pryder mwyaf i bobl oedd:

- Trwsio lonydd a phalmentydd
- Strydoedd glan
- Lefel troseddu

Yn ogystal, fe nododd aelodau yng Ngweithdy’r Pwyllgor Craffu Cymunedau bod y materion cysylltiol yma o bryder arbennig i bobl yn 2012:

- Tipio slei bach
- Baw Ci
- Golygfa Stryd
- Casgliadau sbwriel amserol

Mae nifer o’r elfennau yma wedi cael sylw yn y Cynllun *Balchder Bangor* sy’n anelu i gael canol dinas lan, taclus a diogel, i ddarparu amgylchedd lleol deniadol a diddorol.

Byddai asesu llwyddiannau a diffygion y Cynllun yma yn fodd i ddod at argymhellion clir i’r Aelod Cabinet wrth iddo gynllunio i’r dyfodol.

2 <u>Pwrpas yr Ymchwiliad</u>

Bydd yr Ymchwiliad yn anelu at ateb y prif gwestiynau yma:

a) Beth oedd effaith y Cynllun ar bobl Bangor a Gwynedd?
b) A ydyw wedi gwella’r amgylchedd ym Mangor?
c) A ydyw’n gynaliadwy?

3 <u>Effaith</u>

Os byddwn yn llwyddiannus, bydd yr Ymchwiliad Craffu yn:

- Llunio argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth i’r Aelod Cabinet eu hystyried
- Rhoi asesiad clir o lefel perchnogaeth pobl yn lleol o edrych ar ôl eu hamgylchedd yn lleol.
- Rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw rwystrau a sut i’w datrys
- Nodi gwersi i’w dysgu a chryfderau o ran lledu’r Cynllun ar draws y Sir.

4 <u>Cyfnod yr Ymchwiliad</u>

| | |
|---|---|
| Cychwyn yr Ymchwiliad | Ebrill 2013 |
| Diwedd yr Ymchwiliad | Hydref 2013 |
| Adroddiad i sylw’r Pwyllgor Craffu Cymunedau | 10 Rhagfyr 2013 |
| Adroddiad oddi wrth Craffu at y Weithrediaeth | Rhagfyr 2013 |

Draft

5 <u>Rhaglen</u>

Amlinelliad o'r prif gamau a chyfarfodydd
Bydd gofyn i'r aelodau wneud gwaith ychwanegol rhwng y cyfarfodydd

| | |
|---|---|
| 1 | Cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd a'i swyddogion |
| 2 | Nodiadau Briffio'r aelodau gan Swyddogion Craffu:<br>• Cyllidebau<br>• Staffio<br>• Eiddo<br>• Canlyniadau Perfformiad<br>• Proffiliau Defnyddwyr<br>• Barn y Panel Dinasyddion<br>• Deddfwriaeth berthnasol<br>• Canlyniad ymgynghori<br>• Crynodeb o unrhyw adroddiadau archwilio mewnol ac allanol<br>• Cyswllt gyda'r Strategaeth Gymunedol<br>• Cyswllt gyda Chynllun Strategol y Cyngor<br>• Cynlluniau/strategaethau/polisïau perthnasol<br>• Enghreifftiau o ardaloedd eraill sy'n darparu'r gwasanaeth yma |
| 3 | Sesiwn Cynllunio<br>Ystyried y sefyllfa a pha gamau i'w cymryd nesaf |
| 4 | Casglu sylwadau gan staff gweithrerdol perthnasol y Cyngor a Phartneriaid allweddol allanol |
| 5 | Casglu sylwadau gan:<br>• Drigolion lleol<br>• Gwirfoddolwyr<br>• Arbenigwyr |
| 6 | Sesiwn Cynllunio<br>Ystyried y wybodaeth a gafwyd hyd yn hyn a chynllunio gweddill y rhaglen waith |
| 7 | Trefnu Ymweliad ag ardal arall os yn briodol |
| 8 | Sesiwn cwestiynu<br>• Aelod Cabinet Amgylchedd<br>• Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| 9 | Dadansoddiad<br>• Ystyried a chrynhoi'r wybodaeth a phrofiadau<br>• Cwestiynnu'r Aelod Cabinet ymhellach os oes angen<br>• Cytuno'r prif argymhellion ar gyfer yr adroddiad a'r ffordd ymlaen |
| 10 | Pwyllgor Craffu i ystyried yr adroddiad drafft a'r argymhellion |

Draft

Blaenraglen Craffu Mehefin 2012 ymlaen – Fersiwn 3.00 (18.03.13)

**Noder – mae hon yn raglen fyw sy'n cael ei diweddaru'n gyson**

A Pwyllgor Craffu Corfforaethol

| | Eitem | Dyddiad Cyfarfod Paratoi | Dyddiad Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|
| 1 | Strategaeth Gymunedol | 14.06.12 | 19.07.12 |
| 2 | Strategaeth Arbedion | 14.06.12 | 19.07.12 |
| 3 | Meddylfryd Systemau (Ymchwiliad Craffu) | 14.06.12 | 31.01.13 |
| 4 | Cynllun Gwella | 06.09.12 | 02.10.12 |
| 5 | Cydbwysedd Gwledig a Threfol | 06.09.12<br>02.10.12 | 13.12.12<br>07.03.13 |
| 6 | Partneriaethau a Chydweithio<br>Asesu cynnydd | 19.12.12 | |
| 7 | Caffael Cynaladwy | 19.12.12 | 31.01.13<br>07.03.13 |
| 8 | Cynllun Strategol y Cyngor | | |
| 9 | Y Cyngor a'r Cyhoedd<br>Trefniadau Ymgysylltu | | |
| 10 | Gweithlu<br>Cadw morál y gweithwyr yn uchel mewn cyfnod anodd | | |
| 11 | Cydweithio gydag Ynys Môn | | |
| 12 | Polisi ôl-troed Carbon<br>Asesu cyrhaeddiad | | |
| 13 | Cynllunio Argyfwng<br>Asesu cynnydd ar Adroddiad SAC | | |

18.03.13

B Pwyllgor Craffu Cymunedau

| | Eitem | Dyddiad Cyfarfod Paratoi | Dyddiad Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|
| 14 | Cyflenwad a Fforddiadwyedd Tai | 18.07.12 | 04.09.12 |
| 15 | Ymchwiliad Craffu Tai | 18.09.12 | 05.02.13 |
| 16 | Ffordd Osgoi | 30.10.12 | 04.12.12 |
| 17 | Strategaeth Wastraff | 30.12.12 | 04.12.12 |
| 18 | Cludiant<br>Cysondeb darpariaeth i Fyfyrwyr ar draws y Sir | 30.12.12 | 04.12.12<br>26.03.13 |
| 19 | Ynni Gwynt<br>Trefniadau ymgynghori | 30.12.12 | 04.12.12 |
| 20 | Grymuso Cymuned<br>Cydweithio gyda phartneriaid yn lleol | | |
| 21 | Balchder Bangor<br>Ystyried cynnydd a gwersi i'w dysgu a'u rhannu ar draws y Sir | 04.09.12 | 26.03.13<br>10.12.13 |
| 22 | Defnydd o Eiddo gwag<br>Ystyried effaith polisïau'r Cyngor a'i bartneriaid | | |
| 23 | Ffioedd Parcio<br>Ystyried cysondeb ar draws y Sir | | |
| 24 | Defnydd o lwybrau beicio<br>Ystyried cynnydd ar safon a defnydd | | |
| 25 | Parc Glynllifon a Pharc Padarn<br>Ystyried cynnydd | | |
| 26 | Rhandiroedd<br>Herio cyflawniad ar y polisïau cyfredol a'r is-ddeddfau perthnasol | | |
| 27 | Parthau Cadwraeth Morol | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28 | Cynllun Prentisiaeth<br>Ystyried cynnydd | | |
| 29 | Cyflwr Ffyrdd Cefn Gwlad<br>Ystyried problemau a datrysiadau posibl | | |
| 30 | Twristiaeth<br>Asesu effaith ar economi Gwynedd | | |
| 31 | Casgliadau Ysbwriel<br>Angen gwybodaeth | | |
| 32 | Rheoli Carafanio Dros Nos<br>Angen gwybodaeth | | |
| 53 | Tai Cymdeithasol | 30.12.12 | 05.02.13 |
| 54 | Cyfnod Meddiannu Carafanau Sefydlog | 19.02.13 | |
| 55 | Noddfa, Deiniolen | | |
| 56 | Cynllun Hurio Ceir | | |

C Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

| | Eitem | Dyddiad Cyfarfod Paratoi | Dyddiad Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|
| 33 | Gwasanaeth Ieuenctid<br>Cynnydd ar Raglen Wella'r Adolygiad | 25.06.12 | 31.07.12 |
| 34 | Strategaeth Addysg<br>Ystyried cynnydd hyd yn hyn<br>Sefydlu Gweithgor i gefnogi'r Aelod Cabinet<br>Cadarnhâd o'r goblygiadau | 25.06.12 | 31.07.12<br><br>13.09.12<br>15.11.12 |
| 35 | Ymchwiliad Craffu i Ansawdd Addysg | 25.06.12 | |
| 36 | Newid mewn Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru – Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr | | 13.09.12 |
| 37 | Canolfannau Hamdden<br>Ystyried cynnydd ar yr Adolygiad Strategol | 11.10.12 | 15.11.12 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 38 | Cynllun Comisiynu Anabledd Corfforol<br>Ystyried Cynnydd y Cynllun | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 39 | Anabledd ac Awtistiaeth<br>Ystyried gwybodaeth | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 40 | Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn<br>Ystyried gwybodaeth 'Urddas mewn Gofal' | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 41 | Plant mewn Gofal | | |
| 42 | Tiroedd a drosglwyddwyd i Cartrefi Cymunedol Gwynedd | 22.11.12 | 10.01.13 |
| 43 | Darpariaeth Gwasanaethau'n Lleol | | |
| 44 | Llwybr i Gyflogaeth | | |
| 45 | Teleofal ac Offer Cefnogi Pobl | 22.11.12 | 10.01.13 |
| 46 | Ymyrraeth Ddwys – Cefnogi Teuluoedd | | |
| 47 | Pobl Ifanc<br>Cynnydd ar ddarparu cyfleoedd i rai sy'n ddiwaith i gael mynediad i brofiadau gwaith a gwaith | | |
| 48 | Cynllun Tlodi Plant | | |
| 49 | Cefnogaeth i Ofalwyr | | |
| 50 | Panel Rhiant Corfforaethol | | |
| 51 | Materion o Gynllun Gwella 2011-12<br>- Cynlluniau Gwella Iechyd (Tud 79)<br>- Gwelliannau Iaith (Tud 84-86)<br>- | | |
| 52 | Adroddiad Gwasanaethau Plant Sir Benfro | 17.01.13 | 21.02.13 |
| 57 | Y Gwystl – trefniadau ymgysylltu | | |

18.03.13